

# Deddf Erthylu 1967 – Cymeradwyo Dosbarth ar Fan Triniaeth ar gyfer Terfynu Beichiogrwydd (Cymru) 2022

24 Chwefror 2022

Mae'r gymeradwyaeth hon yn disodli cymeradwyaeth 31 Mawrth 2020 a daw i rym ar y dyddiad y'i gwneir. Bydd y gymeradwyaeth hon yn parhau i fod yn effeithiol hyd nes y caiff ei disodli gan gymeradwyaeth ychwanegol neu gymeradwyaeth arall.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y gymeradwyaeth a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 1(3) a (3A)(1) o Ddeddf Erthylu 1967(2).

## Dehongli

### 1. Yn y gymeradwyaeth hon—

ystyr “cartref” (“*home*”), yn achos menyw feichiog, yw'r man yng Nghymru lle y mae gan fenyw feichiog ei chyfeiriad parhaol neu lle y mae'n preswyllo fel arfer neu, yn achos ymarferydd meddygol cofrestredig, yw'r man yng Nghymru lle y mae gan ymarferydd meddygol cofrestredig ei gyfeiriad parhaol neu lle y mae'n preswyllo fel arfer;

ystyr “man cymeradwy” (“*approved place*”) yw ysbyty yng Nghymru, fel y'i hawdurdodir o dan adran 1(3) o Ddeddf Erthylu 1967, neu fan yng Nghymru a gymeradwyir o dan yr adran honno.

## Cymeradwyo dosbarth ar fan

2. Mae cartref ymarferydd meddygol cofrestredig wedi ei gymeradwyo fel dosbarth ar fan triniaeth ar gyfer terfynu beichiogrwydd at ddibenion rhagnodi'r meddyginiaethau o'r enw Miffepriston a Misoprostol i'w defnyddio mewn triniaeth sy'n cael ei chynnal yn y modd a bennir ym mharagraff 4.

3. Mae cartref menyw feichiog sy'n cael triniaeth at ddibenion terfynu ei beichiogrwydd wedi ei gymeradwyo fel dosbarth ar fan lle y caniateir i'r driniaeth ar gyfer terfynu beichiogrwydd gael ei chynnal pan fo'r driniaeth honno yn cael ei chynnal yn y modd a bennir ym mharagraff 4.

### 4. Rhaid i'r driniaeth gael ei chynnal yn y modd a ganlyn—

(a) bod y fenyw feichiog—

i) wedi mynd i fan cymeradwy;

ii) wedi cael ymgynghoriad â man cymeradwy drwy gyswllt fideo, drwy gynhadledd ffôn neu drwy ddull electronig arall, neu

---

(1) Mewnosodwyd adran 1(3A) gan adran 37(3) o Ddeddf Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol 1990. Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol, o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru o dan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(2) 1967 p. 67.

iii) wedi cael ymgynghoriad ag ymarferydd meddygol cofrestredig drwy gyswllt fideo, drwy gynhadledd ffôn neu drwy ddull electronig arall; a

(b) bod Miffepriston a Misoprostol wedi eu rhagnodi i'r fenyw feichiog i'w cymryd at ddibenion terfynu ei beichiogrwydd ac nad yw'r cyfnod beichiogrwydd wedi bod yn hwy na naw wythnos a chwe niwrnod ar yr adeg y cymerir y Miffepriston.

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'M. E. Morgan'.

Eluned Morgan AS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

24 Chwefror 2022